**Datganiad gan Bryan Owen Rees Jones a Bethan Ogwen Rees Jones y ddau o Fferm Penamser, Porthmadog LL49BN 9SL iddatblygiad o Dai Fforddiadwy ar lain o dir, sef rhan o Moelwyn Dairy, Porthmadog.**

Rwyf eisioes wedi datgan fy ngwrthwynebiad i'r bwriad i leoli unrhyw ddatblygiadau tai fforddiadwy yn Ngriccieth a Phenrhyndeudraeth. Credaf nad oes digon o sylw wedi ei roddi i angen tai fforddiadwy oddifewn Porthmadog. Mae anwybyddu y dref o unrhyw ddatblygiadau, yn fy marn i yn dangos diffyg gwybodaeth ar ran awduron y cynllun o hanes y fro, a'r sail datblygiadau a benderfynwyd arnynt yn y cynllun blaenorol. Porthmadog oedd yr ardal twf ar gyfer Eifionydd a Gogledd Meirionydd. Yno y lleolai y datblygiadau economaidd gyda'r dref fel canolbwynt i'r fro. Creuwyd pwyllgor arbennig i ddatblygu'r syniad yma.

Mae'r Cyngor Sir presennol wedi newid yn sylweddol y poisiau yma gan amddifadu bron yn llwyr unrhyw ddatblygiadau yn de Gwynedd. Yn rhannol dengys hyn yn ei ymateb i bob syniad ar gyfer datrblygu tai yn y fro Porthmadog. Mae pob ateb i awgrymiadau o dir adddas wedi ei ymateb gyda'r un geiriau, yn dangos yn glir iawn nad oes llawer o sylw wedi ei roddi i bwnc mor bwysig i'r fro.

Mae'r Cyngor Tref wedi eisioes datgan ei gwrthwynebiad i syniadau Cyngor Gwynedd. Maent wedi awgrymu lleiniau o dir addas oddifewn i ffiniau y Cyngor Tref; tiroedd sydd ddim wedi ei heffeithio gan y "Flood Plain". Mae gennyf ddiddordeb wedi bod mewn un llecyn arbenig a credaf y byddai datblygiad o ystad fechan o dai fforddiadwy yn cyfarfod rhan o angen y dref.

Y tir dan sylw yw rhan o dir cyn fferm Moelwyn Dairy, Ffordd Penamser, Porthmadog. Lleolir y tir yn union i'r Gorllewin o goedwig coll-ddail Tuhwntirbwlch. Mae'r cae penodol (Llain Rhif ) wedi ei amgylchynu a waliau cerrig sych a ni fyddai angen creu unrhyw ffin o'r newydd. I'r Gogledd mae y ffin yn cyd-redeg a'r briffordd o Borthmadog i Griccieth a mae'r mynediad i'w gael tros y ffordd a mynediad iYstad Ddiwidiannol Porthmadog a leolir i'r Gogledd, ac sydd yn cyd-redeg a tir Moelwyn Dairy am beth pellter i'r Gorllewin.

Roedd y tir yn cael ei ddefnyddio hyd nes y chwedegau hwyr ar gyfer pori gwartheg godro. Fe roedd tri prif adeilad ar y safle priodol yma, sef beudy sylweddol sydd yn awr bron a'i ddymchwel a dau adeilad sinc sylweddol oedd erbyn 2000 + mewn cyflwr difrifol ac yn beryglus. Cafwyd caniatad cynllunio i ddymchwel yr hen adeiladu paratoi llaeth ac adeiladu adeilad modern ar gyfer Canolfan Achub Aberglaslyn (Aberglaslyn Mountain Centre). Mae y grwp yma yn cael llawn defnydd o'r adeilad a'r tir. Maent yn meddianu'r tir trwy Les o 15 mlynedd ar rent sefydlog o £50.00 y flwyddyn.Mae dwr cyhoeddus ar y safle yn barod ynghyd a trydan. Mae carthffos cyhoeddus wedi ei leoli yn Ffordd Penamser. Credir bod yr eiddo yma, gyda'i cyn ddefnydd fel llaethdy yn rhannol yn "brownfield site". Mae angen clirio'r hen adeilad godro sydd yn beryglys a chlirio olion yr hen ddefnydd ynghyd a'r adeiladau bychain cysylltiedig.

Mae'r tir yn codi yn union syth o'r briffordd gyda ffordd fferm yn codi tuag at y De i 30 troedfedd. Mae yn hollol glir o unrhyw berygl llifogydd. Rhedai llain o goed trwchus coll-ddail ar ffin y tir o'r Gorllewin i'r Dwyrain sydd yn rhoddi cysgod gweledol i'r safle o'r De, y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae yr agwedd yma o'r tir yn gwynebu rhan o'r Parc Cenedlaethol sydd wedi ei leoli tua milltir i'r De ar gopa Creigiau'r Dref. Drwy leoliad y coed ac yn arbennig o amlygrwydd Ystad Ddiwidiannol Penamser nid yw'r tir yma yn amlwg o gwbwwl o unrhyw ran pwysig o'r Parc Cenedlaethol.

Tu cefn i'r llecyn mae wal gerrig sych gyda ambell o goed coll-ddail. Mae'r tir yma yn codi yn serth tuag at gopa Moel y Gewst a mae llwybyr cyhoeddus yn ei groesi; yn rhedeg o dir Tuhwntirbwlch yn y Gogledd-Dwyrain ac yn codi i'r Gogledd-Gorllewin. Mae'rtir yma hefyd yn ran o Moelwyn Dairy. Er y byddai'r ystad yn amlwg o'r llwybr yma ni fyddai mor niweidiol yn weladwy na'r datblygiad amlwg iawn o Ystad Ddiwydiannol Penamser sydd wedi ei chaniatau i redeg ymhell i lawr Ffordd Penamser. Mae to cyn adeilad Gelert yn amlwg iawn o bob man ac yn effeithiuo yn andwyol ar yr amgylchedd gweladwy. Fe ddylai sylw hefyd ei roddi i'r ffaith bod y Cyngor yn ddiweddar wedi ymestyn ffin yr ystad ddiwydiannol i'r Gorllewin gan ganiatau datblygiad a fyddai yn weladwy o'r llwybr Cyhoeddus, Moel y Gest, a'r Parc Cenedlaethol. Fe ddylai sylwi hefyd bod safle storio carafannau wedi ei chaniatau ar ochr ddeheuol o Ffordd Penamser yn ddiweddar gan Cyngor Gwynedd sydd yn eu hyn yn tanseilio unrhyw ddadl nad ydynt yn awyddus i ymestyn unrhyw ddatblygiadau ar ochr Ogleddol Ffordd, Penamser.

Ers rhai blynyddoedd mae'r tir wrth gefn y llecyn priodol (tua 8 erw) sydd yn ei groesi gan y llwybr cyhoeddus wedi ei gadw'n glir o anifeiliad pori. Mae hyn i roddi siawns i'r trir ail-ddatblygu yn naturiol, a mae coed coll-ddail yn dod yn amlwg yn awr ar y safle. Y bwriad fyddai i gadw'r tir yma ar gyfer datblygiad o goed naturiol.

Mae Moelwyn Dairy yn gyfanswm o 33 erw. Tir porri garw yw ei ddefnydd ac ers rhai blynyddoedd mae wedi ei ffermio ynghyd a Fferm Penamser (tua 50 erw) Nid yw'r ddwy uned yn creu fferm hunan gynhaliol ac mae'r tir wedi ei osod allan ar gyfer pori defiad ac gwartheg.

Manteision mwyaf y tir yma yw ei leoliad uniugryw ar gyrion tref Porthmadog. Mae yna lwybyr troed yn arwain i'r Stryd Fawr (tua 200 llath) ynghyd a rhan o lwybyr beic yr arfordir sy'n rhedeg heibio mynediad y tir. Mae'r prif siopau yr ardal wedi ei lleoli oddifewn i 400 llath i'r eiddo a mae yr Ysgol Gynradd (Eifion Wyn) oddifewn 300 llath. Mae'r Ganolfan Chwaraeon a'r Llyfrgell hefyd oddifewn cyrraedd wrth gerdded. Mae yr Ystad Ddiwydiannol ar gyrion y tir. Yma y ceir y gweithle mwyaf yn yr holl fro gan gynnwys Criccieth a Phenryndeudraeth.

Mae polisiau amgylcheddol y llywodraeth yn hollol glir ar y pwysicrwydd a roddir i amddiffyn yr amgylech trwy dorri lawr ar deithiau nad oes ei hangen. Mae agwedd y Cyngor ar hyn yn hollol groes i'r polisi yma yn arbennig. Gyda datblygiadau tai yn Criccieth a Phenryndeudraeth fe fyddai angen i bobl deithio gyda moduron i'r siopau; canolfanau chwaraeon, ysgolion, llyfrgelloedd a'r brif dref siopau yn hollol groes i ddymuniadau'r llywodraeth. Porthmadog oedd y brif ganolfan o dan cyn bolisiau'r Cyngor yma a mae wedi ei datblgu ar gyfer y syniad hwnnw. Nid yw nawr yn resymol i'r Cyngor newid ei polisiau mewn modd mor ddi-synwyrol.

Credaf nad yw polisi y Cyngor yn resymol o gwbwl yn y cyswllt yma. Mae modd datblygu'r dref mewn ffordd a fyddai ddim yn niweidiol i'r amgylchedd. Heb unrhyw dwf mewn tai a allai fod o gyrraedd pobl ifanc y fro fe fydd y dref tros amser yn marw. Ni fydd plant ar gael ar gyfer yr ysgolion; fe fydd y siopau (archfarchnadoedd ac eraill) yn colli ei poblogrwydd ac fe fyddai effaith andwyol ar y canolfannau eraill a sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae prisiau tai yn Borth -y Gest, Morfa Bychan, Criccieth a'r cyffuniau mor ddifrifol fel na all neb lleol sydd gyda swydd gwaith rhesymol ei fforddio Fe fyddai datblygiad o ystad fechan o dai fforddiadwy ar gyrrion y dref yn fantais anferthol i ddyfdol y dref ac yn sicrhau ei dyfodol mewn trefn rhesymol a chynaliadwy.

**Bryan O. Rees Jones Ll.b.**
**Bethan O. Rees Jones B.A.**
**Fferm Penamser, Porthmadog. LL49 9SL**